Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar gynlluniau hyfforddi'r gweithlu addysg

## Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol/The National Centre for Learning Welsh

Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Dyddiad yr arolygiad: Tymor y gwanwyn 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Cyflwyniad

Yn ystod 2025-26 derbyniodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (CDCG) gyllid o £1,000,000 gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg i'r gweithlu addysg statudol. Yn ogystal, ym mis Medi 2025 trosglwyddwyd darpariaeth ddwys y Cynlluniau Sabothol i'r Ganolfan gyda chyllid o £1,283,497.

Defnyddir y cyllid hwn i weithredu amcan Cynllun Strategol 2024-2026 y Ganolfan i Ddatblygu Dysgu Cymraeg Gweithlu Addysg fel rhaglen genedlaethol gydlynus sy'n cynnwys ystod o hyfforddiant a chefnogaeth i ddarpar athrawon, athrawon, cynorthwywyr dosbarth a'r gweithlu cefnogi mewn ysgolion.

Mae'r cynllun Dysgu Cymraeg Gweithlu Addysg yn gweithredu ar sail tri nod strategol, sef:

- Sicrhau cefnogaeth i Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol trwy gefnogi ysgolion neu glystyrau ble targedir newid ieithyddol, er enghraifft i newid categori iaith.
- Sicrhau cefnogaeth i Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 trwy gefnogi ysgolion i gwrdd â'r nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori iaith. Er enghraifft, disgwylir i ysgolion cyfrwng Saesneg (neu ysgolion Prif Iaith-Saesneg, rhannol Cymraeg fel y cânt eu disgrifio yn y Ddeddf) ddarparu o leiaf 10% o'u haddysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2030.
- Cyflwyno methodoleg addysgu'r Gymraeg a ddefnyddir yn llwyddiannus gydag oedolion er mwyn dylanwadu ar arfer addysgu a chaffael y Gymraeg mewn ysgolion a gwella'r cynnig i blant a phobl ifanc.

Mae'r cynllun hefyd yn cefnogi nodau Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg Llywodraeth Cymru.

Cynigir modelau darparu amrywiol fel hunan-astudio, cyrsiau dan arweiniad tiwtor, cyrsiau preswyl a chyrsiau sabothol dwys. Yn ogystal, cynigir cyrsiau prif ffrwd am ddim i ymarferwyr y gweithlu addysg.

Mae pwyslais bwriadus ar deilwra cynnwys y cyrsiau at ddibenion ymarferwyr addysg fel bod modd iddynt drosglwyddo'r hyn maent wedi'i ddysgu i'w gwaith gyda disgyblion.

Derbyniodd y GDCG gyllid o £500,000 gan Lywodraeth Cymru yn 2024-25 i sefydlu'r cynllun a chyflogwyd tiwtoriaid gweithlu addysg yn ystod 2025-26 ar gyfer y gwaith hwn.

Yn ystod 2024-25, roedd 20,455 o ddysgwyr yn y sector Dysgu Cymraeg ac o'r rheiny roedd 2,974 yn ddysgwyr ar gyrsiau hyfforddi'r gweithlu addysg. Roedd oddeutu 10% o'r gweithgareddau dysgu yn y sector yn rhai hyfforddi'r gweithlu addysg.

Mae Rhan 5 Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn newid statws y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (CDCG) o fis Medi 2027 i fod yn gorff statudol o'r enw Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda'r nod o hwyluso a chefnogi dysgu Cymraeg gydol oes.

Bydd ei swyddogaethau yn cynnwys:

- cynllunio ar gyfer datblygu'r gweithlu addysg at ddiben gwella dulliau addysgu'r Gymraeg
- gwneud trefniadau i ddarparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg i'r gweithlu addysg
- gwneud trefniadau i wella lefelau gallu yn y Gymraeg ymysg y gweithlu addysg.

## Methodoleg

Nod yr arolygiad hydredol hwn yw gwerthuso ansawdd ac effaith cychwynnol cynlluniau hyfforddi'r gweithlu addysg statudol dan ofal y GDCG.

Cynhaliwyd y gwaith maes yn ystod tymor y gwanwyn 2026. Yn ogystal, craffwyd ar dystiolaeth berthnasol ac arsylwadau o sesiynau hyfforddi'r gweithlu addysg yn ystod arolygiad craidd Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2025.

Mae'r sampl yn cynnwys arsylwadau o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein ar lefelau gwahanol (cyn-fynediad i hyfedredd), cyrsiau wythnosol, cyrsiau dwys a chyrsiau preswyl.

Cynhaliom drafodaethau proffesiynol â dysgwyr (sef ymarferwyr addysg yn y cyd-destun hwn), tiwtoriaid ac uwch staff ysgolion cynradd ac uwchradd i drafod effaith y cyrsiau ar aelodau'r gweithlu addysg o ran caffael y Gymraeg a'u defnydd ohoni gyda'u disgyblion.

Ymwelwyd â phump darparwr Dysgu Cymraeg rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2026:

- Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin
- Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain
- Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn
- Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr
- Dysgu Cymraeg Gwent

Ymwelwyd â dau ddarparwr y cynlluniau sabothol:

- Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
- Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor

Yn ystod ymweliadau, fe wnaethon ni gyfarfod â phenaethiaid a swyddogion perthnasol y darparwyr ac uwch reolwyr eu sefydliadau cartref. Yn ogystal, cynhaliom gyfarfodydd gydag uwch swyddogion y GDCG.

## Crynodeb

Mewn byr o dro, mae'r GDCG wedi sefydlu darpariaeth strategol, gynhwysfawr a hyblyg i gefnogi gweithlu addysg Cymru i ddatblygu eu medrau Cymraeg a'u gallu i ddefnyddio'r iaith yn effeithiol yn eu gwaith. Mae'r rhaglen yn cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu i ymarferwyr mewn ysgolion ar bob lefel o allu ieithyddol, gan gynnwys cyrsiau hunan-astudio, cyrsiau dan arweiniad tiwtor, cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn a chynlluniau dysgu dwys (sabothol).

Mae'r cyrsiau wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer bodloni anghenion y gweithlu addysg ac yn cyfuno datblygu medrau iaith â dealltwriaeth o addysgeg a methodoleg amrywiol wrth eu cefnogi i gaffael iaith. Er hyn, mae cyfyngiadau sydd y tu hwnt i gyfrifoldebau y GDCG, fel dyraniad cyllid cyflenwi annigonol i ryddhau ymarferwyr mewn ysgolion i ddysgu Cymraeg yn parhau i'w rhwystro rhag cael eu rhyddhau i fynychu'r sesiynau. Mae hyn yn cyfyngu ar argaeledd a chyrhaeddiad yr ymarferwyr wrth iddynt ddysgu Cymraeg. Mae hyn, yn ei dro, yn cyfyngu ar allu tiwtoriaid ac effaith llawn y ddarpariaeth ar gefnogi'r ymarferwyr i ddatblygu eu medrau dysgu Cymraeg yn adeiladol dros amser.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid brofiad addysgu gwerthfawr ac maent yn creu amgylcheddau dysgu cefnogol sy'n meithrin hyder ymarferwyr i ddysgu Cymraeg. Maent yn defnyddio ystod addas o strategaethau caffael iaith ac yn cyd-destunoli'r dysgu'n llwyddiannus i sefyllfaoedd ysgol a gwaith dyddiol ymarferwyr. O ganlyniad, mae llawer o ymarferwyr yn gwneud cynnydd cadarn, yn enwedig yn eu medrau llafar, ac yn datblygu'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda disgyblion, cydweithwyr a rhieni. Er hyn, mae ansawdd yr addysgu o ran hyrwyddo defnydd annibynnol a naturiol ymarferwyr o'r Gymraeg yn rhy amrywiol. Mewn lleiafrif o sesiynau, mae'r tiwtoriaid yn dibynnu'n ormodol ar gyfieithu neu ddefnyddio'r Saesneg, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd ymarferwyr i ddatblygu hyder a rhuglder i ddefnyddio'r Gymraeg yn gynyddol ddigymell gyda'u disgyblion.

Mae'r dysgu dwys (sabothol) a'r cyrsiau preswyl yn nodweddion hynod gryf o'r ddarpariaeth. Mae tiwtoriaid yn defnyddio dulliau trochi gwerthfawr sy'n datblygu medrau iaith, gwybodaeth ddiwylliannol ac arferion addysgeg ymarferwyr yn llwyddiannus. Yn

gyffredinol, mae tiwtoriaid yn cefnogi arweinwyr mewn ysgolion sy'n symud ar hyd y continwwm iaith, yn werthfawr sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni'r nodau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA).

At ei gilydd, un o'r prif rwystrau i gynnydd parhaus ymarferwyr yw diffyg cysondeb yn y trefniadau ôl-ofal a ddarperir gan awdurdodau lleol ac ysgolion wedi i ymarferwyr gwblhau cyrsiau. Mae ansawdd a natur y gefnogaeth a ddarperir ganddynt yn amrywio'n sylweddol. Mewn llawer o achosion, nid yw'r trefniadau ar gyfer cefnogi ymarferwyr i gynnal a datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn ddigon strategol a systematig. O ganlyniad, mae'n anodd mesur effaith lawn y ddarpariaeth ar ddefnydd proffesiynol ymarferwyr o'r Gymraeg a'u dealltwriaeth ddyfnach o addysgeg a methodoleg effeithiol dysgu Cymraeg dros amser. Yn gyffredinol, nid yw'r trefniadau ôl-ofal yn ddigon cydlynus a chyson er mwyn cryfhau hyder ymarferwyr ac i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd gyda disgyblion.

Mae arweinyddiaeth y GDCG yn gadarn ac yn seiliedig ar gynllunio strategol clir, cydweithio effeithiol â phartneriaid cenedlaethol ac awdurdodau lleol, a threfniadau sicrhau ansawdd perthnasol. Mae'r arweinwyr yn defnyddio data ac amrywiaeth o fodelau cynllunio a chyflwyno darpariaeth i'w cefnogi i anelu at sicrhau bod y ddarpariaeth yn hygyrch i ymarferwyr mewn ysgolion ac yn ymateb i anghenion lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid i'r GDCG i gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth yn flynyddol. Mae hyn yn rhwystro'r arweinwyr i gynllunio'n ddigon strategol yn y tymor hir.

## Argymhellion i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

A1 Cysoni'r defnydd o addysgeg a methodoleg effeithiol Cymraeg i Oedolion ar draws y ddarpariaeth i gefnogi ymarferwyr i gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus, ac i'w defnyddio'n gynyddol hyderus yn eu haddysgu eu hunain gyda'u disgyblion

A2 Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, datblygu cyfundrefn ôl-ofal strategol ac effeithiol newydd i gefnogi ymarferwyr i ddefnyddio eu medrau iaith

A3 Parhau i gyd weithio yn strategol ag awdurdodau lleol i ddatblygu'r cynnig i'r gweithlu addysg statudol, a datblygu dulliau o fesur effaith y ddarpariaeth ar ymarferwyr, ac ar eu disgyblion

A4 Cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu model cyllido sy'n cefnogi cynlluniau hirdymor, gan gynnwys cyfundrefn gyllido i ryddhau ymarferwyr i ddysgu Cymraeg.

## Prif arfarniad

### Darpariaeth

Er nad oedd y GDCG wedi derbyn cyllid penodol i ddarparu hyfforddiant i'r gweithlu addysg ar y pryd, ym mis Awst 2022, lansiwyd porth ar wefan y GDCG Genedlaethol (GDCG) i gyfeirio'r gweithlu addysg at yr hyfforddiant dysgu Cymraeg oedd ar gael ar eu cyfer. Erbyn hyn, mae'r Porth Gweithlu Addysg | Dysgu Cymraeg wedi datblygu i fod yn llwyfan defnyddiol sy'n darparu gwybodaeth allweddol ac arweiniad clir i ddarpar ymarferwyr sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg yn ogystal â chynnig mynediad at gyrsiau hunan-astudio.

Mae nod strategol y cyrsiau i ymarferwyr y gweithlu addysg yn wahanol i gyrsiau prif ffrwd y sector Dysgu Cymraeg gan eu bod yn anelu at wella eu medrau iaith yn ogystal â chyflwyno methodoleg a dulliau caffael iaith effeithiol iddynt eu defnyddio gyda'u disgyblion.

Cynnig y gweithlu addysg:youtube.com

Cynigir cyrsiau am ddim ar bob lefel y Fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg gan gynnwys cyrsiau blasu, hunan-astudio, cyrsiau dan arweiniad tiwtor, cyrsiau preswyl a chyrsiau sabothol dwys. Gall ymarferwyr addysg fynychu cyrsiau prif ffrwd am ddim hefyd. Mae'r fframwaith yn alinio yn glir lefelau Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd a ddefnyddir gan y sector Dysgu Cymraeg a'r codau gallu yn y Gymraeg a ddefnyddir gan y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY).

Mae'r cyrsiau hunan-astudio yn adnodd hynod ddefnyddiol i'r ymarferwyr sy'n methu mynychu dosbarth arferol neu fel adnodd adolygu i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr.

Cynigir cyrsiau wedi'u teilwra i anghenion gwahanol, er enghraifft Cymraeg Bob Dydd (Sector Cynradd) a Cymraeg Bob Dydd (Sector Uwchradd) sy'n cyflwyno iaith i'w defnyddio mewn ysgolion o ddydd i ddydd. Darperir cyrsiau ar lefelau gwahanol o Lefel Mynediad i Athrawon i Cwrs Cymraeg Cywrain i alluogi staff i ddefnyddio elfennau gramadegol yn gywir oddi fewn i gyd-destunau fel ysgrifennu cofnodion, adroddiadau a llythyrau. Mae'r Cyrsiau uwch i Gynorthwywyr Dysgu Sylfaen - Model Iaith wedi'i deilwra gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ymarferwyr sy'n gynorthwywyr dysgu mewn ysgolion yn fodelau iaith cadarn.

## Tiwtoriaid hyfforddi'r gweithlu addysg

Mae'r GDCG wedi gweithredu'n strategol gan wahodd ceisiadau gan ddarparwyr sydd eisoes yn gweithredu fframwaith hyfforddi'r gweithlu addysg i gyflogi tiwtoriaid gweithlu addysg sy'n gweithio ar draws gwahanol awdurdodau lleol Cymru. Er enghraifft, mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn gyfrifol am addysgu'r gweithlu yn siroedd Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr tra bod Dysgu Cymraeg Gwent yn gyfrifol am siroedd Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Casnewydd a Sir Fynwy.

Mae gan fwyafrif y tiwtoriaid gweithlu addysg brofiad blaenorol o fod yn athrawon ysgol sydd, ar y cyfan, yn fuddiol o ran deall yr hyn sydd ei angen yn ymarferol ar athrawon a chynorthwywyr er mwyn addysgu'r Gymraeg yn effeithiol. Mae'r tiwtoriaid naill ai wedi dilyn neu wrthi yn dilyn y cwrs 'Dechrau Dysgu'. Er hyn, nid oes digon o diwtoriaid gweithlu addysg ar draws Cymru ac mae hyn yn peri anhawster wrth ddatblygu'r arlwy yn ehangach. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd cyson a chynhwysol i ymarferwyr gael mynediad at y ddarpariaeth i'w cefnogi i ddysgu Cymraeg.

Un o rinweddau nodedig gwaith y tiwtoriaid hyn yw'r ffordd maent yn cydweithio ag arweinwyr ysgolion i ddeall a diwallu anghenion ieithyddol y gweithlu. Er enghraifft, mae tiwtor Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain yn cydweithio'n agos ag athrawes ymgynghorol Sir y Fflint i gydweithio gydag ymarferwyr mewn clwstwr o ysgolion cynradd. Mae adnabyddiaeth y tiwtor o anghenion dysgu Cymraeg yr ymarferwyr yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau ynghyd â mesur effaith y ddarpariaeth ar yr addysg a'r dysgu.

Darperir cefnogaeth werthfawr mewn ysgolion penodol er mwyn eu cynorthwyo i symud ar hyd y continwwm iaith a newid categori ieithyddol yn unol â disgwyliadau Cynlluniau strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) yr awdurdodau lleol. Mae'r GDCG yn darparu cyllid sydd gyfwerth ag wyth tiwtor llawn amser ar draws Cymru yn ogystal ag un tiwtor preswyl yn Nant Gwrtheyrn. Er enghraifft, mae Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr yn darparu tiwtor rhan amser yn Ysgol Bro Caereinion, Powys i hwyluso a chefnogi datblygiad yr ysgol ar hyd y continwwm iaith, cefnogi ymarferwyr i fagu hyder yn y Gymraeg a'u galluogi i fod yn gynyddol hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Darperir cefnogaeth i arweinwyr gynllunio a mapio cynnydd ym medrau iaith y staff ar draws yr ystod lefelau Dysgu Cymraeg, a hynny dros gyfnod amser penodol.

Yn yr achosion gorau, mewn cyfnod byr, mae'r ddarpariaeth yn cefnogi dysgwyr i wella eu medrau Cymraeg, yn enwedig eu medrau llafar Cymraeg. Yn ogystal, drwy gynlluniau gweithredu perthnasol o fewn ysgolion unigol, caiff yr ymarferwyr a'r disgyblion fwy o gyfleoedd i ddysgu am ddiwylliant Cymru, er enghraifft wrth i diwtoriaid ac arweinwyr

ysgolion gydweithio i drefnu bod perfformwyr yn dod i gyflwyno sesiynau creadigol gyda disgyblion.

**Cyrsiau preswyl**

Mae Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn yn darparu cyrsiau preswyl ar bob lefel. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau a gynhelir dros bum niwrnod a threfniant blaengar o gynnig cyrsiau hybrid, sef cyfle i ymarferwyr gwblhau cwrs lefel gyfan dros gyfnod o saith wythnos, dwy wythnos breswyl gydag un ar ddechrau'r cyfnod a'r llall ar ddiwedd y cyfnod a pum gwers rithiol rhyngddynt. Mae'r trefniant hwn yn gweithio'n dda i'r ymarferydd ac i'w cyflogwyr.

Mae'r darparwr yn addasu cwrs lyfrau'r Nant yn benodol at ddibenion y gweithlu addysg gyda'r nod o gyflwyno'r cwrs ar gyflymder sy'n addas i'r dysgu wrth drochi'r dysgwyr yn yr iaith fel rhan o'u profiad o ddysgu'r Gymraeg.

### Ciplun: Dysgu trwy wneud – Nant Gwrtheyrn

Drwy gyd-destun unigryw'r Nant, mae'r darparwr yn trefnu profiadau hynod werthfawr i ddysgwyr barhau i gaffael y Gymraeg mewn cyd-destunau Cymreig cyfoethog. Er enghraifft, cynhelir gweithdy clocsio, twmpath dawnsio gwerin a sesiwn gydag artist lleol sy'n canu caneuon cyfoes ac emynau traddodiadol Cymraeg gyda'r ymarferwyr.

Yn ogystal, tua chanol yr wythnos breswyl, mae'r ymarferwyr yn cael profiadau amrywiol yn y gymuned leol. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn trefnu bod yr ymarferwyr yn ymweld ag atyniadau lleol, prynu stampiau mewn swyddfa bost yn y Gymraeg, a chymryd rhan mewn gweithdy celf.  Mae hyn yn cefnogi'r ymarferwyr i fagu hyder a chyfathrebu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg gydag aelodau'r gymuned. Mae'r profiadau hyn hefyd yn rhoi syniadau newydd iddynt fel ymarferwyr addysg ynglŷn â sut maent yn medru cyflwyno'r Gymraeg i'w disgyblion mewn cyd-destunau ymarferol a chreadigol.

**Dysgu Dwys (Sabothol**)

E mis Medi 2025, mae'r GDCG yn gyfrifol am y cynlluniau sabothol a gynhelir gan dri darparwr ar sail ddaearyddol;

- Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor yng ngogledd Cymru
- Rhagoriaith, Prifysgol Cymru y Drindod dewi Sant yng nghanolbarth a gorllewin Cymru
- Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yn ne Cymru

Cyflogir 10.8 tiwtor drwy'r cynllun Dysgu Dwys (sabothol). Mae'r cyrsiau hyn yn darparu profiadau dysgu dwys buddiol iawn mewn sesiynau wyneb yn wyneb a rhithiol sy'n cynnwys elfennau dyfeisgar o ddysgu cydamserol ac anghydamserol.

Prif arlwy y darparwyr yw'r cyrsiau dwys llawn amser dros ddau dymor ysgol, sef tymor yr hydref a thymor y gwanwyn. Trefnir y cyrsiau hyn ar gyfer ymarferwyr sy'n addysgu un ai'r disgyblion ieuengaf neu'r rhai hynaf sydd eisoes yn meddu ar fedrau sylfaenol yn y Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Mae'r cyrsiau hyn yn arwain at gymhwyster 80 credyd ar lefel 6.

Yn ogystal â chaffael y Gymraeg hyd at lefel canolradd, mae'r ymarferwyr yn derbyn mewnbwn arbenigol a hynod werthfawr mewn addysgeg effeithiol. Nod y cynllun yw nid addysgu'r ymarferwyr o ran medrau iaith yn unig ond i'w harfogi i fod yn ymarferwyr llwyddiannus o ran addysgu ac integreiddio'r Gymraeg yn drawsgwricwlaidd yn eu hysgolion eu hunain. Maent yn derbyn hyfforddiant trylwyr ar sut i fodelu ac ymarfer geirfa a phatrymau iaith, a'u hymestyn yn ystyrlon ar draws y meysydd dysgu. I'r perwyl hwn, maent yn treulio pum niwrnod yn ystod tymor y gwanwyn yn ôl yn eu hysgolion eu hunain i weithredu'r hyn maent wedi'i ddysgu ar waith, ac yna myfyrio ar hyn fu'n fuddiol fel rhan o'r broses addysgu a dysgu.

Yn ystod tymor yr haf, cynigia pob darparwr ystod o gyrsiau gwahanol ar gyfer ymarferwyr sydd ar lefelau mynediad i loywi yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Targedir carfannau penodol hefyd, sef cynorthwywyr dysgu, athrawon addysg gorfforol ac athrawon Cymraeg fel ail iaith.

Mae'r GDCG wedi datblygu gweithdrefnau effeithlon i ddewis yr ymarferwyr mwyaf addas, o ran cynllunio ieithyddol o fewn eu hysgolion. Fodd bynnag, er y cydweithio strategol bwriadus rhwng y Ganolfan a'r awdurdodau, nid yw'r ysgolion bob tro'n anfon y staff mwyaf addas ar y cyrsiau o hyd, sef yr ymarferwyr allweddol hynny sydd â photensial i gynyddu defnydd o'r iaith yn eu hysgolion. Yn ogystal, er bod cyllid cyflenwi ar gael nid yw'n ddigon i ariannu gwir gost cyflenwi, ac yn rhy aml, mae hyn yn rhwystro arweinwyr ysgolion rhag rhyddhau ymarferwyr i fynychu hyfforddiant gwerthfawr.

**Addysg gychwynnol i athrawon**

Nid yw'r GDCG yn gyfrifol am y ddarpariaeth hon yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae'r GDCG yn cydweithio'n rhagweithiol â Phrifysgol Bangor a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd i ddarparu yn ychwanegol i'r 35 awr a ddisgwylir yn ystod y cwrs addysg gychwynnol athrawon i israddedigion BA Addysg. Ni chafodd y ddarpariaeth hon ei gwerthuso yn ystod yr arolygiad hwn gan fod addysg gychwynnol athrawon yn cael ei harolygu fel sector penodol ar wahân.

Cyhoeddodd Estyn adroddiad perthnasol ym mis Medi 2023 lle amlygir nad yw hyfforddi'r gweithle addysg wedi cael effaith digon cadarnhaol ar fedrau iaith ac addysgeg addysg gychwynnol i athrawon.

Cefnogi'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon: Sut mae sefydliadau addysg gychwynnol athrawon (AGA) yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i wella eu medrau Cymraeg, gan gynnwys addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Yn dilyn yr adroddiad hwn, darparodd y GDCG adnodd Dysgu Cymraeg gyfwerth â 35 awr i bartneriaethau addysg gychwynnol athrawon ar bob lefel o'r fframwaith cymwyseddau.

**Data**

2024-25 oedd blwyddyn lawn gyntaf gweithredu'r cynllun ar gyfer y gweithlu addysg. Yn ystod 2024-25, roedd 20,455 o ddysgwyr yn y sector Dysgu Cymraeg ac o'r rheiny roedd 2,974 yn ddysgwyr ar gyrsiau hyfforddi'r gweithlu addysg. Roedd oddeutu 10% o'r gweithgareddau dysgu yn y sector yn rhai hyfforddi'r gweithlu addysg.

Mae amrywiaeth amlwg yn y mathau o ddarpariaeth sydd ar gael ar draws holl gynlluniau hyfforddi'r gweithlu addysg. Mae cyfraddau cwblhau ar gyrsiau preswyl llawer uwch nag ar gyrsiau hunan-astudio, ond at ei gilydd mae mwyafrif yr ymarferwyr addysg ar y cyrsiau gwahanol yn cwblhau eu cyrsiau.

## Addysgu

Mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn creu perthnasoedd gwaith cadarnhaol a chefnogol gydag ymarferwyr, sy'n eu galluogi i adnabod anghenion y carfannau gwahanol yn effeithiol a theilwra eu haddysgu yn unol â hynny. Mae egni a brwdfrydedd llawer o diwtoriaid yn hynod effeithiol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu amgylcheddau dysgu diogel a chefnogol lle mae ymarferwyr yn magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn adeiladol dros amser. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol ac yn defnyddio ystod briodol o ddulliau i gefnogi caffael iaith, gan gynnwys ystumiau, ailadrodd, drilio, holi a defnyddio cyd-destunau perthnasol i waith ymarferwyr o ddydd i ddydd gyda disgyblion. Mae llawer o diwtoriaid yn addasu gweithgareddau'n fedrus er mwyn sicrhau perthnasedd i waith yr ymarferwyr ac yn adeiladu'n gynyddol ar eu medrau blaenorol dros amser. O ganlyniad, mae llawer o ymarferwyr yn datblygu hyder cynyddol i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith proffesiynol.

Yn y rhan fwyaf o ddarpariaethau, mae tiwtoriaid yn defnyddio methodoleg caffael iaith yn fedrus ac yn amrywio gweithgareddau dysgu'n effeithiol er mwyn ennyn a chynnal diddordeb ac ymgysylltiad yr ymarferwyr. Mae llawer yn rhoi pwyslais clir ar annog

defnydd cynyddol o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac yn ehangach yng nghymuned yr ysgol. Yn ogystal, mae llawer o diwtoriaid yn cefnogi ymarferwyr i gysylltu dysgu blaenorol â phatrymau newydd ac yn defnyddio dulliau sensitif fel ail-lunio iaith er mwyn meithrin hyder a chywirdeb. Yn aml, mae cyflymder y sesiynau'n briodol ac mae'r dysgu'n symud yn llyfn rhwng gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys gweithgareddau clywedol, gemau, gwaith grŵp ac apiau digidol. Mae hyn yn helpu llawer o ymarferwyr i gynnal eu diddordeb ac i ddatblygu eu medrau llafar yn gynyddol hyderus.

Mae cyd-destunoli'r dysgu yn gryfder amlwg ar draws llawer o'r ddarpariaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn teilwra geirfa, patrymau iaith a gweithgareddau yn fedrus er mwyn adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau'r dysgwyr yn y gweithle. Er enghraifft, mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio'r cynllun 'Cymraeg bob dydd' fel sail gadarn i'r addysgu ac yn cyflwyno iaith sy'n berthnasol i waith athrawon a chynorthwywyr mewn ysgolion. Mewn ychydig o achosion cryf, mae tiwtoriaid yn gweithredu'n fedrus fel hwyluswyr wrth gefnogi ymarferwyr i gyd-gynllunio gweithgareddau y gallan nhw eu defnyddio gyda disgyblion yn eu dosbarthiadau eu hunain. Yn ogystal, mae ffocws buddiol ar weithgareddau micro-ddysgu mewn rhai darpariaethau yn galluogi ymarferwyr i gyflwyno gweithgareddau byrion a myfyrio ar eu defnydd o strategaethau addysgeg ac iaith.

Mae llawer o diwtoriaid yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i gydweithio â chydweithwyr, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd i rannu profiadau, trafod heriau a chyfnewid adnoddau. Mae llawer hefyd yn dod â chefndir helaeth ym maes addysg i'w gwaith ac maent yn meithrin profiadau dysgu cadarn ac ymarferol i ymarferwyr. Mewn ychydig o ddarpariaethau cryf, caiff ymarferwyr eu cyflwyno'n fwriadus i agweddau ar ddiwylliant, hanes a chelfyddydau Cymru, sy'n eu helpu i ddatblygu ymdeimlad cryfach o berthyn i'r Gymraeg ac yn eu hannog i ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Fodd bynnag, ar draws y ddarpariaeth, mae ansawdd yr addysgu o ran hyrwyddo defnydd annibynnol a naturiol o'r Gymraeg yn amrywio. Mewn lleiafrif o sesiynau, mae ymarferwyr yn dibynnu'n ormodol ar gymorth ysgrifenedig, cyfieithu a defnydd y tiwtor o'r Saesneg. O ganlyniad, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn cael digon o gyfleoedd cyson i siarad ac ymarfer y Gymraeg yn annibynnol drwy sgwrsio naturiol neu waith pâr a grŵp. Mewn ychydig o achosion, mae tiwtoriaid yn ailadrodd geirfa neu gyfarwyddiadau yn Saesneg yn ddiangen, sy'n arafu datblygiad medrau iaith ymarferwyr ac yn cyfyngu ar gyfleoedd iddynt ddatblygu strategaethau caffael iaith yn fwy annibynnol.

Mewn lleiafrif o sesiynau, mae'r tiwtor yn gor-arwain y dysgu, gyda gormod o bwyslais ar gyflwyno cynnwys neu esbonio dulliau addysgu yn hytrach na rhoi digon o amser i ymarferwyr  ymarfer a defnyddio'r Gymraeg eu hunain. Ar adegau, mae tiwtoriaid yn ceisio

cyflwyno gormod o gynnwys mewn un sesiwn, sy'n golygu bod y llwyth gwybodaeth yn rhy eang a dwys i ychydig o ymarferwyr. Yn ogystal, mewn ychydig o sesiynau, nid yw'r cyd-destunoli iaith ar gyfer gwaith ysgolion neu feysydd dysgu penodol wedi'i ddatblygu'n ddigon cyson, yn enwedig mewn sesiynau Codi Hyder. O ganlyniad, nid yw ychydig o ymarferwyr yn datblygu digon o hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol fel rhan annatod o'u haddysgu dros amser.

Mewn lleiafrif o achosion mae arferion addysgu'n adlewyrchu dulliau mwy traddodiadol nad ydynt bob amser yn cyd-fynd yn ddigon buddiol ag arferion mwyaf effeithiol sector Cymraeg i Oedolion. Er enghraifft, mae gorddibyniaeth ar gyfieithu neu esbonio yn Saesneg yn lleihau'r cyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu rhuglder llafar a hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigymell. Yn ogystal, mewn ychydig o sesiynau, nid oes digon o ffocws ar gefnogi ymarferwyr i ddatblygu ynganiad cywir drwy ymarfer llafar rheolaidd a drilio pwrpasol.

**Dysgu**

O'u mannau cychwyn, mae llawer o ymarferwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau Cymraeg, yn enwedig yn eu medrau llafar. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth gadarn o batrymau iaith a rheolau gramadegol, gan gynnwys treigladau a ffurfiau berfol amrywiol, ac yn gallu cymhwyso'r rhain yn briodol mewn gweithgareddau strwythuredig. Yn aml, mae ymarferwyr yn dangos diddordeb cryf yn y modd y mae'r Gymraeg yn gweithio fel iaith, ac mae hyn yn cael effaith cadarnhaol ar eu gallu i ddatblygu cywirdeb cynyddol wrth siarad ac ysgrifennu. Mae llawer yn ynganu'n gywir fel arfer a, gyda chefnogaeth y tiwtor, maent yn cyfathrebu'n gynyddol hyderus ac yn defnyddio geirfa a phatrymau iaith sy'n berthnasol i'w cyd-destunau proffesiynol yr ymarferwyr.

Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae ymarferwyr yn dangos agweddau hynod gadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau, yn dangos dyfalbarhad ac yn fodlon ymgeisio hyd yn oed pan nad ydynt yn gwbl hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar ei gilydd wrth weithio mewn parau neu grwpiau ac yn adeiladu'n gynyddol ar eu defnydd o eirfa a phatrymau iaith. Mewn llawer o achosion, mae ymarferwyr yn dechrau siarad Cymraeg yn fwy digymell yn ystod sesiynau ac mae ychydig yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol gyda'r tiwtor a'u cyd-ddysgwyr. Mae bron pob ymarferwr yn cydnabod gwerth personol a phroffesiynol dysgu Cymraeg ac yn awyddus i barhau i ddatblygu eu medrau dros amser.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyrsiau Mynediad yn meithrin hyder ac annibyniaeth wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac yn llwyddo i drosglwyddo eu gwybodaeth flaenorol i sefyllfaoedd newydd. Mae hyn yn cryfhau eu medrau cyfathrebu ac yn eu helpu i ddatblygu

cof hirdymor mwy effeithiol ar gyfer geirfa a phatrymau iaith. Dros amser, mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr sydd yn dilyn cyrsiau lefel Uwch a Gloywi yn datblygu mwy o gywirdeb a rhuglder wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ymarferol a phroffesiynol. Mewn ychydig o achosion cryf, mae ymarferwyr  yn cyfuno medrau'n effeithiol wrth adeiladu brawddegau estynedig a defnyddio patrymau gramadegol fwyfwy cymhleth yn gywir mewn gweithgareddau llafar.

Mae medrau darllen bron pob ymarferwr yn datblygu'n briodol ac yn eu galluogi i gyfranogi'n hyderus mewn gweithgareddau dysgu, er enghraifft wrth ddarllen sgriptiau neu destunau byrion ar goedd gydag ynganiad a goslef briodol. Yn ogystal, mae llawer o ymarferwyr  yn dechrau defnyddio'r Gymraeg gyda'u disgyblion a'u cydweithwyr yn y gweithle. Ar gyrsiau dysgu dwys (sabothol), mae gwaith micro-ddysgu sy'n cael ei asesu yn ffurfiol yn darparu tystiolaeth gadarn iawn o ddatblygiad ymarferwyr o ran caffael iaith ac addysgeg effeithiol.

Er hyn, ar draws y ddarpariaeth, mae gallu ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol ac yn naturiol yn rhy amrywiol. Mewn lleiafrif o sesiynau, mae ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf mewn gweithgareddau penodol yn unig ac yn tueddu i droi i'r Saesneg wrth ryngweithio'n fwy anffurfiol gyda'i gilydd. O ganlyniad, nid yw lleiafrif yn datblygu digon o hyder i gynnal sgwrs naturiol neu estynedig yn Gymraeg. Mewn ychydig iawn o achosion, mae ymarferwyr yn oddefol am gyfnodau rhy hir ac nid ydynt yn cymryd rhan weithredol ddigon cyson yn y dysgu.

Ar draws llawer o ddarpariaethau, mae ychydig o ymarferwyr yn parhau i wynebu anawsterau gydag ynganiad, yn enwedig wrth ynganu rhai seiniau, llafariaid a llythrennau dwbl yn gywir. Mae ychydig iawn o ymarferwyr  yn oedi'n aml wrth geisio adalw geirfa a phatrymau iaith, sy'n effeithio ar eu rhuglder a'u hyder wrth siarad. Yn ogystal, lle mae presenoldeb neu brydlondeb yn wan, neu lle caiff ymarferwyr eu tynnu allan o sesiynau'n rheolaidd oherwydd ymrwymiadau gwaith, mae'r cynnydd a wnânt yn aml yn rhy araf. Mae hyn fwyaf perthnasol yn achos arweinwyr ac ymarferwyr sydd â chyfrifoldebau ehangach yn y gweithle.

At ei gilydd, un o'r prif rwystrau i gynnydd parhaus ymarferwyr  yw diffyg cysondeb yn y trefniadau ôl-ofal ar ôl cwblhau cyrsiau. Nid yw'r GDCG yn gyfrifol am yr elfen hon ac mae ansawdd a natur y gefnogaeth a ddarperir gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn amrywio'n sylweddol. Mewn llawer o achosion, nid yw'r trefniadau ar gyfer cefnogi ymarferwyr i gynnal a datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn ddigon strategol a systematig. O ganlyniad, mae'n anodd mesur effaith llawn y ddarpariaeth ar ddefnydd proffesiynol ymarferwyr o'r Gymraeg a'u dealltwriaeth ddyfnach o addysgeg a methodoleg effeithiol dysgu Cymraeg dros amser. Nid yw'r trefniadau ôl-ofal yn ddigon cydlynus a chyson er mwyn cryfhau

hyder ymarferwyr ac i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd gyda disgyblion.

Trwy blatfform 'Fy Nysgu', mae gan ymarferwyr fynediad at adnoddau buddiol a chyfleoedd perthnasol i gwblhau ymarferion yn yr adran 'Fy Nhasgau'.

### Ciplun: Cyd-destunoli cynnwys

Elfen nodedig o'r cyrsiau sabothol yw'r ffordd mae tiwtoriaid yn cyd-destunoli cynnwys y cyrsiau'n ddeallus i ddatblygu medrau iaith ymarferwyr a'u hyfforddi i gymhwyso'r iaith o fewn meysydd profiad gwahanol.

Mae tiwtoriaid Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yn gweu elfennau o ddarllen storïau, mathemateg, gwyddoniaeth a daearyddiaeth yn grefftus mewn i weithgareddau gyda'r nod o sicrhau bod ymarferwyr yn hyderus i gyflawni'r un peth. Trefnir teithiau i ddigwyddiadau fel pantomeim ac i leoliadau fel Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru gan ddangos sut i arwain taith ysgol yn y Gymraeg.

Mae tiwtoriaid Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor yn cyflwyno gwers ar gymharu Patagonia a Chymru sydd yn esgor ar drafodaeth ymhlith yr ymarferwyr sut gallent addasu'r gweithgaredd i ddatblygu rhifedd disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg.

O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau iaith, addysgeg a dealltwriaeth o gaffael iaith ymarferwyr.

## Rheolaeth ac arweinyddiaeth yn genedlaethol ac yn lleol

### Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r GDCG wedi dangos gweithredu strategol clir a bwriadus, wedi'i seilio ar ddadansoddiad o'r ddarpariaeth hanesyddol oedd ar gael cyn iddi dderbyn cyllid i ddarparu hyfforddiant, yn ogystal ag anghenion y gweithlu addysg . Yn dilyn astudiaeth a nododd fod gormod o raglenni byrion ac anghyson yn bodoli, mae'r GDCG wedi datblygu un rhaglen genedlaethol newydd sy'n seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR). Y CEFR fydd yn sail i'r Cod Cymraeg newydd a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2026. Mae sefydlu cyfarwyddiaeth newydd o fewn y GDCG, ar gyfer Pobl Ifanc, Teuluoedd a'r Gweithlu Addysg ym Mhasg 2023 hefyd wedi cryfhau'r strwythur mewnol, gyda chyfrifoldebau staff wedi'u diffinio'n glir i gefnogi arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol. Cynigir cyrsiau ar bob lefel y Fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg gan gynnwys cyrsiau blasu, hunan-astudio,

cyrsiau dan arweiniad tiwtor, cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn a chyrsiau bloc i ysgolion a chlystyrau penodol.

Mae'r cynllun Dysgu Cymraeg Gweithlu Addysg yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion craidd sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol, yn hygyrch ac yn berthnasol i anghenion y gweithlu addysg yng Nghymru. Un o'r prif egwyddorion yw'r defnydd o fodelau darparu amrywiol sy'n cynnig lefel uchel o hyblygrwydd i ysgolion a lleoliadau addysg. Drwy ddarparu amrywiaeth o ddulliau cyflwyno, fel dysgu wyneb yn wyneb, sesiynau ar-lein a dulliau dysgu cyfunol, gall ysgolion ddewis y model sy'n gweddu orau i anghenion eu staff, eu hamserlenni a'u cyd-destun lleol. Mae'r hyblygrwydd hwn yn galluogi mwy o gyfranogiad ac yn helpu sicrhau bod cyfleoedd dysgu Cymraeg yn hygyrch i bob aelod o'r gweithlu.

Mae'r cynllun hefyd yn cynnig arlwy gynhwysfawr o gyrsiau sydd wedi'u cyd-destunoli'n llwyr i ofynion gweithio mewn ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod cynnwys y cyrsiau yn berthnasol ac yn ymarferol i'r ymarferwyr, gan ganolbwyntio ar sefyllfaoedd a geirfa sy'n codi'n naturiol o fewn bywyd ysgol bob dydd. Drwy gysylltu'r dysgu'n uniongyrchol â rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr addysg, mae'r cynllun yn cefnogi ymarferwyr i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau proffesiynol, boed hynny yn y dosbarth, cyfathrebu â rhieni neu wrth weithio â chydweithwyr.

Yn ogystal, mae'r cyrsiau'n seiliedig ar fethodoleg sy'n medru dylanwadu'n gadarnhaol ar arferion yn y dosbarth. Nod y dull hwn yw nid yn unig datblygu sgiliau iaith y gweithlu, ond hefyd annog defnydd gweithredol o'r Gymraeg mewn addysgu a dysgu dyddiol. Drwy gyflwyno strategaethau ac arferion ymarferol sy'n gallu cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r ystafell ddosbarth, mae'r cynllun yn cyfrannu at gryfhau'r Gymraeg fel rhan naturiol o ddiwylliant ysgol ac yn cefnogi'r nod ehangach o gynyddu defnydd y Gymraeg ar draws y system addysg.

Yn ystod 2025-2026, trosglwyddwyd Cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru i fod yn rhan o'r rhaglen ar gyfer y Gweithlu Addysg. Yn ogystal, mae gwaith strategol wedi cael ei wneud gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei alinio â chynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg (CSGA).

### Ciplun: Tiwtoriaid gweithlu addysg wedi'u lleoli mewn ysgolion penodol

Mae Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin yn derbyn cyllid i leoli tiwtor rhan-amser yn Ysgol y Gogarth, ysgol arbennig a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r ysgol yn blaenoriaethu datblygu medrau Cymraeg ei gweithlu fel rhan o'i hymrwymiad i ddwyieithrwydd, hunaniaeth ddiwylliannol a'r cysyniad o gynefin.

Drwy gydweithio â'r ysgol a'r awdurdod lleol, mae'r tiwtor yn asesu a monitro cynnydd ieithyddol staff, yn darparu sesiynau Dysgu Cymraeg wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol lefelau, ac yn cynnig cefnogaeth ymarferol i ymarferwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith dyddiol. Ar hyn o bryd, mae ymarferwyr o fewn wyth grŵp yn derbyn darpariaeth reolaidd drwy amserlen sy'n galluogi staff i fynychu sesiynau'n gyson.

Yn ôl hunanwerthusiad yr ysgol, mae'r gwaith eisoes yn cael effaith gadarnhaol, gyda staff a disgyblion yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r ysgol hefyd yn nodi bod cyfathrebu â disgyblion Cymraeg iaith gyntaf wedi gwella o ganlyniad i'r ddarpariaeth.

Mae'r GDCG yn gweithio'n strategol ac yn effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid allweddol, gan gynnwys Cyngor y Gweithlu Addysg a Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Mae'r cydweithio hwn yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygu darpariaeth gydlynus ac at gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i'r gweithlu addysg ar lefel genedlaethol. Defnyddir 'dashfwrdd' blaengynllunio a monitro yn effeithiol i olrhain ble a chan bwy y cynhelir hyfforddiant ar draws awdurdodau lleol ac ysgolion.

Er y cydweithio strategol bwriadus rhwng y GDCG a'r awdurdodau, nid yw'r ysgolion bob tro'n anfon yr ymarferwyr mwyaf addas ar y cyrsiau, sef yr ymarferwyr allweddol hynny sydd â photensial i gynyddu defnydd o'r iaith yn eu hysgolion. Yn ogystal, oherwydd y diffyg cyllid cyflenwi, yn rhy aml, mae'r ffactorau hyn yn rhwystro arweinwyr ysgolion rhag rhyddhau staff i fynychu hyfforddiant gwerthfawr.

Mae'r hyfforddiant cychwynnol a ddarperir i diwtoriaid y gweithlu addysg yn fuddiol ac yn sicrhau dealltwriaeth gadarn o gefndir polisi a deddfwriaethol y gwaith. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol yn eu lle. Mae gan y tiwtoriaid fynediad at y platfform 'Fy Nysgu' lle rhennir adnoddau a chanllawiau ynghyd â rhaglen addas o ddysgu proffesiynol drwy Academi'r GDCG sy'n cynnwys sesiynau amrywiol megis ar ddrilio patrymau a hyfforddiant Codi Hyder. Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth yn annog addysgwyr i gefnogi ac ysgogi eu dysgwyr yn effeithiol.

Cynhelir cyfarfodydd cenedlaethol bob pythefnos ar gyfer tiwtoriaid addysg, sy'n darparu fforwm gwerthfawr ar gyfer rhannu gwybodaeth, cyfnewid arferion a sicrhau cysondeb cenedlaethol. Drwy'r cyfarfodydd hyn, mae tiwtoriaid yn derbyn arweiniad ar brosesau megis gwneud cais am gyllid cyflenwi ar ran ysgolion, ynghyd â chefnogaeth gan swyddogion cenedlaethol ar ddatblygu ac adeiladu cyrsiau. Mae'r gefnogaeth barhaus gan ddarparwyr lleol a'r GDCG yn rhan bwysig o'r trefniadau sicrhau ansawdd, gan helpu tiwtoriaid i ddefnyddio'r wybodaeth a gofnodir yn y Cynllun Datblygiad Personol i wella eu harfer.

Mae trefniadau sicrhau ansawdd y ddarpariaeth dysgu dwys (sabothol) wedi'u sefydlu'n dda ac yn gadarn iawn, gyda chyfraniad gwerthfawr gan arholwr allanol sy'n cryfhau'r prosesau monitro a gwerthuso.

Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid yw hyn oll wedi sicrhau cysondeb ar draws y darpariaethau o ran defnyddio arferion mwyaf effeithiol sector Cymraeg i Oedolion.

**Darparwyr**

Mae gan y darparwyr weledigaeth glir a phwrpasol sy'n cefnogi datblygiad y Gymraeg ymhlith ymarferwyr ysgolion. Mae'r weledigaeth hon yn cyd-fynd yn effeithiol â blaenoriaethau cenedlaethol ac yn darparu cyfeiriad cadarn i'r gwaith ar lefel leol. Drwy gydweithio'n effeithiol â phartneriaid perthnasol, mae arweinwyr yn cynllunio a chyflwyno darpariaeth sy'n ymateb yn dda i anghenion ysgolion ac ymarferwyr addysg ar draws y rhanbarthau.

Mewn rhai ardaloedd, megis Ceredigion, mae'r gwaith yn rhan annatod o strategaeth ehangach i gryfhau dilyniant ar hyd y continwwm iaith. Mae hyn yn cynnwys mentrau fel 'Cymraeg yn y Cartref', sy'n cefnogi rhieni i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn y cartref ac yn y gymuned. Ceir cydweithio agos rhwng tiwtoriaid ac ysgolion unigol, sy'n helpu sicrhau cefnogaeth gyson i ymarferwyr. Yn ogystal, mae trefniadau ôl-ofal strwythuredig ar ôl cyrsiau bloc yn annog ymarferwyr i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu gwaith dyddiol.

Mae prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu gweithredu'n briodol yn unol â gweithdrefnau arferol y darparwyr, gan gynnwys arsylwadau a monitro'r ddarpariaeth. Ar yr un pryd, mae arweinwyr yn sicrhau bod tiwtoriaid yn cael mynediad at gyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr, megis arsylwi cydweithwyr yn addysgu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd cenedlaethol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cryfhau'r ddarpariaeth ac yn hyrwyddo rhannu arferion effeithiol ac adnoddau, gyda thiwtoriaid yn addasu deunyddiau cenedlaethol yn llwyddiannus i weddu i gyd-destunau lleol.

Mae cyfathrebu a chydweithio buddiol rhwng arweinwyr ysgolion a'r darparwyr. Mae'r arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd â thiwtoriaid ac yn trafod cynnydd gyda'r uwch dîm arwain yn dymhorol. Mae hyn yn helpu i werthuso effaith y ddarpariaeth a chynllunio'r camau nesaf yn effeithiol. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer darparu cefnogaeth barhaus (ôl-ofal) yn ddigon strategol na chyson, er enghraifft o ran y cyfathrebu rhwng arweinwyr ysgol a'r ymarferwyr sy'n dysgu Cymraeg. O ganlyniad i natur gymharol anffurfiol y broses, mae'n anodd gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar ddisgyblion mewn modd systematig a chyson. Mae'r trefniadau hyn, dan ofal awdurdodau

lleol, yn amrywiol dros ben sy'n golygu nad yw'n ddigon strategol neu ar adegau, nad yw'n digwydd o gwbl.

Mewn byr o dro, mae'r GDCG wedi arwain ar ddatblygu darpariaeth addas ac amrywiol ar draws Cymru yn llwyddiannus. Mae ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu yn dda ac mae gweithdrefnau priodol yn bodoli i wella agweddau sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, mae prif rwystrau i lwyddiant y gwaith hwn y tu allan i gyfrifoldebau'r GDCG. Mae'r rhain yn cynnwys y diffyg cyllid sydd ar gael i ysgolion ryddhau ymarferwyr, sicrhau bod ysgolion yn dewis yr ymarferwyr cywir i fynychu'r rhaglenni, a'r prosesau ôl-ofal i fentora a monitro cynnydd ieithyddol a phedagogaidd yr ymarferwyr.

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/09/2026